Gwrth-ddŵr ai peidio?

Yn y ddrama, ceisia ein cymeriadau symud ymlaen o'u trafferthion wrth yrru Taliesin bach i lawr yr afon. Ond a oes unrhyw gludydd addas ar gael?

Cam 1: Ail wyliwch adran yma o'n drama.

Cam 2: Holwch y disgyblion, *pa gludydd fydd yn cadw'r babi'n sych? A fyddan nhw wir yr yn gweithio?*

Cam 3: Heddiw cawn ddarganfod y gwir. Bydd y plant yn cynnal arbrawf, *fel gwyddonwyr go iawn*, i benderfynu pa ddefnydd fyddai'n cadw'r babi sychaf.

Byddwn yn rhoi ciwbiau siwgr mewn cwpanau a'u gorchuddio gyda gwahanol ddefnyddiau. Os adawn ni nhw yn y glaw, cawn ddarganfod pa ddefnydd sy'n cadw'r siwgr sychaf.

Byddwch angen:

- ***amrywiaeth o ddefnyddiau gwahanol***

© Cwmni Theatr Taking Flight 2020 gan Alan Thomas-Williams

Literacy Framework

Dangos eu bod yn deall yr hyn y maent wedi ei glywed drwy holi cwestiynau perthnasol i ddod o hyd i wybodaeth benodol.

Rhannu gweithgareddau a gwybodaeth i gwblhau tasg.

Camau Cynnydd

Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Rwy'n gallu adnabod patrymau ar sail fy arsylwadau a'm hymchwiliadau, ac rwy'n gallu mynegi fy nghanfyddiadau.

Rwy'n gallu defnyddio fy ngwybodaeth a'm dealltwriaeth i ragfynegi effeithiau fel rhan o'm hymchwiliadau gwyddonol.

- ***cwpanau***
- ***ciwbiau siwgr neu flawd***
- ***bandiau elastig***

Step 4: Gan ddefnyddio'r PowerPoint yma, gweithiwch trwy'r camau i gynllunio, paratoi a rhagfynegi canlyniadau'r arbrawf. **Gallwch gynnal trafodaeth dosbarth cyfan neu waith ysgrifenedig yn ddibynnol ar lefel gallu ac oedran y disgyblion.**

1. Ein Cwestiwn

Rydyn ni angen cludydd ar gyfer y babi, ond mae sawl gwahanol fath ar gael – pa nodwedd sy'n bwysig wrth feddwl teithio ar yr afon? Arweiniwch y plant tuag at gwestiwn "Pa ddefnydd sy'n wrth-ddŵr?"

2. Y Newidyn

Eglurwch fod gwyddonwyr angen newid un peth wrth gymharu eu harbrofion; sef yr un elfen dyn ni eisiau dysgu amdano. *I ni, y defnydd yw hwnnw.*

3. Arbrawf Teg

Yr unig ffordd o fod yn siŵr mai'r defnydd sydd wedi cadw'r siwgr yn sych yw cadw pob elfen arall yr un fath. Trafodwch pam. *A fyddai cwpan fwy yn gadael mwy o law i mewn? Yw e'n dderbyniol i roi rhai cwpanau yn y cysgod? Alla'i ddyblu un defnydd ond dim y nesaf? Pam ddim?*

4. Y Mesuriad

Sut ydyn ni am wybod os mae'r arbrawf wedi gweithio? Beth *fyddwn ni'n ei weld sy'n mynd i ddangos os mae'r defnydd yn wrth-ddŵr ai peidio? Beth fydd yn digwydd i'r siwgr?*

Literacy Framework

Dangos eu bod yn deall yr hyn y maent wedi ei glywed drwy holi cwestiynau perthnasol i ddod o hyd i wybodaeth benodol.

Rhannu gweithgareddau a gwybodaeth i gwblhau tasg.

Camau Cynnydd

Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Rwy'n gallu adnabod patrymau ar sail fy arsylwadau a'm hymchwiliadau, ac rwy'n gallu mynegi fy nghanfyddiadau.

Rwy'n gallu defnyddio fy ngwybodaeth a'm dealltwriaeth i ragfynegi effeithiau fel rhan o'm hymchwiliadau gwyddonol.

© Cwmni Theatr Taking Flight 2020 gan Alan Thomas-Williams

5. Offer

Gofynnwch i'r plant benderfynu pa offer fydd ei angen er mwyn cynnal yr arbrawf. Mae'n sgil i feddwl yn annibynnol felly peidiwch â rhoi'r ateb yn syth. Gallant lunio diagramau wedi eu labelu neu nodi mewn rhestr.

6. Rhagfynegi

Pa ddefnydd fydd yn cadw'r siwgr sychaf? Pam 'dych chi'n meddwl hyn? Anogwch ddefnydd yr eirfa "gwrth-ddŵr" ynghyd ag esiamplau'r plant o'r defnydd yn cael ei ddefnyddio at bwrpas gwrth-ddŵr.

Cam 5: Cynhaliwch yr arbrawf, gan adael y cwpanau wedi eu gorchuddio allan yn y glaw am ychydig ddyddiau.

Cam 6: Yn ôl at y cyflwyniad PowerPoint:

7. Canlyniadau

Edrychwch ar, trafodwch ac yna tynnwch luniau canlyniadau'r arbrawf!



© Cwmni Theatr Taking Flight 2020 gan Alan Thomas-Williams

Literacy Framework

Dangos eu bod yn deall yr hyn y maent wedi ei glywed drwy holi cwestiynau perthnasol i ddod o hyd i wybodaeth benodol.

Rhannu gweithgareddau a gwybodaeth i gwblhau tasg.

Camau Cynnydd

Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Rwy'n gallu adnabod patrymau ar sail fy arsylwadau a'm hymchwiliadau, ac rwy'n gallu mynegi fy nghanfyddiadau.

Rwy'n gallu defnyddio fy ngwybodaeth a'm dealltwriaeth i ragfynegi effeithiau fel rhan o'm hymchwiliadau gwyddonol.

8. Casgliad

Trafodwch yr hyn dyn ni wedi ei ddysgu wrth gynnal yr arbrawf.

Oeddech chi'n iawn? Oedd dy ddewis o ddefnydd yn wrth-ddŵr? Pa ddefnydd ddylen ni ei ddefnyddio i gadw'r babi yn sych?

Literacy Framework

Dangos eu bod yn deall yr hyn y maent wedi ei glywed drwy holi cwestiynau perthnasol i ddod o hyd i wybodaeth benodol.

Rhannu gweithgareddau a gwybodaeth i gwblhau tasg.

Camau Cynnydd

Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Rwy'n gallu adnabod patrymau ar sail fy arsylwadau a'm hymchwiliadau, ac rwy'n gallu mynegi fy nghanfyddiadau.

Rwy'n gallu defnyddio fy ngwybodaeth a'm dealltwriaeth i ragfynegi effeithiau fel rhan o'm hymchwiliadau gwyddonol.

© Cwmni Theatr Taking Flight 2020 gan Alan Thomas-Williams